


# Grymuso *Casgliadau*

Museums Association

# Cyflwyniad

Wrth edrych yn ôl ar adroddiad Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Grymuso Casgliadau, a gyhoedddwyd yn 2019, cawn ein hatgoffa bod casgliadau'n chwarae rhan hollbwysig a chanolog yn ein hamgueddfeydd ac, o ganlyniad, ym mywydau ein cymunedau. O siarad â phobl sy'n gweithio gyda chasgliadau, gwelwn eu bod yn fwyfwy awyddus i sicrhau'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ymdrin â'n casgliadau o safbwyntiau amrywiol a bod ganddynt fwy o hyder ym mhroses – ac yng ngwerth aruthrol – cyd-guradu.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw hefyd at heriau parhaus sicrhau adnoddau ar gyfer gwaith hanfodol gyda'n casgliadau, a gwerth creu partneriaethau cryf – a mabwysiadu dulliau arloesol, yn cynnwys defnyddio technolegau digidol. Dros y cyfnod nesaf, bydd Cymdeithas yr Amgueddfeydd (MA) yn cydweithio â'r sector i sicrhau bod y daith i wneud ein casgliadau'n rymusol, yn berthnasol ac yn ddeinamig yn cael cymaint o gefnogaeth a gwybodaeth â phosibl.

Yn gyffredinol, mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar y sefyllfa bresennol ar draws y sector ynghyd ag argymhellion a fydd yn procio'r meddwl a, gobeithio, yn ysgogi argymhellion am ffyrdd y gall casgliadau barhau i chwarae rhan allweddol yn ein sector ac yn ein cymunedau yn ehangach.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi gwneud yr adroddiad pwysig hwn yn bosibl trwy eu gwaith caled, eu hymatebion a'u hargymhellion.

---

**Steve Miller**, *Llywydd*

# Ein hymchwil

Yn 2019 cyhoeddodd Cymdeithas yr Amgueddfeydd (MA) yr adroddiad Grymuso Casgliadau gydag argymhellion yn galw ar amgueddfeydd, arianwyr a llunwyr polisi i gydweithio i sicrhau bod casgliadau amgueddfeydd yn rymusol, yn berthnasol ac yn ddeinamig.

Yn 2025, cynhaliwyd prosiect ymchwil gennym i ailedrych ar yr adroddiad a diweddaru'r argymhellion er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y sector a chymdeithas heddiw.

Drwy gydol y broses, buom yn casglu data mewn gwahanol ffyrdd trwy ddigwyddiadau, arolygon, cyfweliadau ac ymgynghori ar-lein. Cymerodd dros 500 o unigolion a sefydliadau ran yn yr ymchwil gyda chynrychiolaeth gytbwys o amgueddfeydd o wahanol fathau a meintiau, staff mewn swyddi ar wahanol lefelau, ac amgueddfeydd mewn gwahanol ardaloedd gan sicrhau cynrychiolaeth o bedair gwlad y Deyrnas Unedig. Ymgynghorwyd â staff llawrydd a rhwydweithiau cymorth yn y sector hefyd yn ogystal ag arbenigwyr mewn gwahanol agweddau ar gasgliadau.

# Ein canfyddiadau

Ar y cyfan, mae'r data a gasglwyd gennym yn rhoi darlun o weithlu a sector sy'n rhoi gwerth ar gasgliadau fel pwynt gwerthu unigryw (USP) amgueddfeydd ac sy'n gofalu amdanynt mewn ffordd broffesiynol, gan lynu wrth safonau'r sector. Mae parodrwydd amlwg i gynyddu mynediad at gasgliadau ac mae llawer eisoes yn cydweithio â'u cymunedau i ddemocrateiddio casgliadau. Yn ogystal, dangosai'r ymatebion bod gwaith dad-drefedigaethu yn llawer mwy cyffredin a bod llawer gwell dealltwriaeth ohono nag yr oedd chwe blynedd yn ôl, er bod rhywfaint o bryder o hyd gan fod pobl yn ofni cael ymateb negyddol i'r gwaith ac yn poeni sut i gael byrddau ac arweinyddiaeth amgueddfeydd i'w gefnogi.

Soniai llawer o ymatebion am ddiffyg adnoddau ar gyfer gwaith ar gasgliadau a bod angen dewis weithiau rhwng gwaith cefn tŷ ar gasgliadau a gwaith gyda chymunedau. Deallwyd bod y broses waredu'n rhan bwysig o waith deinamig i reoli casgliadau, ond unwaith eto dywedodd llawer o amgueddfeydd ei bod yn anodd cael adnoddau ar gyfer y gwaith.

Cydnabuwyd y gallai fod ffyrdd technolegol o ddod dros y diffyg adnoddau ar gyfer gwaith ar gasgliadau ac roedd yr ymatebwyr yn awyddus i ddeall yn well sut y gellid defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) mewn ffyrdd moesegol ac effeithiol i reoli casgliadau.

Ar wahân i gyllid, cafwyd ymatebion cadarnhaol ar y cyfan i'r polisïau, y seilwaith a'r gefnogaeth i'r sector ar hyn o bryd ond roeddent yn galw am fwy o rannu gwybodaeth am gasgliadau yn y sector. Teimlai'r ymatebwyr y byddai rhagor o rwydweithiau a mwy o gydweithio â phartneriaid yn y sector a'r tu hwnt yn help i reoli a defnyddio'r casgliadau'n well.

# Nodau strategol *ar gyfer casgliadau*

Dros y degawd nesaf, mae angen i amgueddfeydd sicrhau bod eu casgliadau'n:

## Grymusol

Defnyddio casgliadau i archwilio materion yn ymwneud â lle a hunaniaeth, i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol, i ddwyn cymunedau ynghyd er mwyn gwella cydlyniad cymdeithasol, ac i feithrin trafod a myfyrio.

## Perthnasol

Cydweithio â phobl a chymunedau er mwyn deall yn well sut y gall casgliadau fod yn berthnasol iddyn nhw ac adlewyrchu'r gymdeithas.

## Deinamig

Mynd ati i reoli casgliadau, yn cynnwys rhesymoli, gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth, er mwyn hybu casgliadau ac amgueddfeydd cynaliadwy.

Er mwyn gwireddu'r nodau hyn, mae angen i amgueddfeydd, arianwyr a chyrff yn y sector gydweithio i:

– gynnal dulliau a ddemocrateiddiwyd a dulliau dad-drefedigaethol o weithio ar gasgliadau, ac adeiladu arnynt

– sicrhau bod casgliadau'n dod â budd i'r cyhoedd a bod y cyhoedd yn deall beth yw'r budd hwnnw

– sicrhau mwy o weithio a chydweithio traws-sector rhwng amgueddfeydd a chymunedau fel y gellir rhannu'r casgliadau yn well.

# Ein *hargymhellion*



*North Lincolnshire Museum*

# *Grymusol*

Mae gan gasgliadau botensial enfawr i rymuso pobl. Mewn cyfnod o gynnydd mewn rhaniadau economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol a pharhad yr argyfwng hinsawdd, mae rhagor o amgueddfeydd nag erioed yn ymgymryd â gwaith a all wella llesiant, creu lleoedd gwell a thecach i fyw a gweithio ynddynt, ac ysbrydoli ymgysylltu, trafod a myfyrio.

Gall amgueddfeydd ddefnyddio'u casgliadau a'r straeon y gallant eu hadrodd i ddwyn pobl ynghyd, i hybu dealltwriaeth ac i ddarparu'r ffeithiau a'r wybodaeth sy'n berthnasol i'r materion y mae pobl yn angerddol amdanynt.

Dylai amgueddfeydd ddefnyddio'u casgliadau i rymuso pobl i gymryd rhan weithredol yn ein cymdeithas, gan roi'r mewnwelediad a'r offer angenrheidiol iddynt i lunio atebion i broblemau cyfredol, i herio anghyfiawnder ac i greu cymunedau cryfach.

*Argymhellwn:*

# 01.

# Dull a ddemocrateiddiwyd o ymdrin â chasgliadau ac arddangosfeydd

Dros y chwe blynedd diwethaf mae'r sector wedi cymryd camau enfawr ymlaen o ran democrateiddio gwaith ar gasgliadau a dylai hyn barhau a chynyddu. Dylai amgueddfeydd weithio tuag at ddatblygu ffyrdd teg o weithio gyda chasgliadau, gan gydnabod y wybodaeth sydd gan y sefydliadau a chefnogi cymunedau i herio rhagdybiaethau a llenwi bylchau drwy ailddehongli a chasglu mewn ffordd strategol.

Dylai amgueddfeydd ymgorffori gwaith cydgynhyrchu a dulliau dan arweiniad y gymuned wrth ddiweddaru arddangosfeydd, gan flaenoriaethu rhai sy'n cynnwys syniadau sydd wedi dyddio ac iaith niweidiol.

Dylid cynnwys cynulleidfaoedd a chymunedau mewn gwaith cefn tŷ ar gasgliadau o'r dechrau'n deg, er enghraifft, trwy flaenoriaethu gwaith sydd â photensial ar gyfer cyfraniadau gan y cyhoedd, cynnwys gwybodaeth gymunedol, neu wahodd y cyhoedd i gyfleu eu dealltwriaeth o waith ar y casgliadau. Dylai arianwyr gefnogi gwaith holistig a chynhwysol ar gasgliadau a chydnabod y gall gwaith cefn tŷ gefnogi cyfraniadau gan y cyhoedd. Dylai cyrff yn y sector hyrwyddo'r rhan y gall gwaith cefn tŷ ei chwarae wrth ddatgloi budd casgliadau i'r cyhoedd yn y tymor hwy.

> *Rwy'n credu bod mwy o ymdeimlad o berthyn gan fod pawb wrthi yn awr yn democrateiddio'u casgliadau.*

**Karen MacKinnon**, *Oriel Gelf Glynn Vivian.*

Astudiaeth achos

## Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Birmingham, Rheithgor Dinasyddion

Lansiwyd Rheithgor Dinasyddion cyntaf Prydain ym maes amgueddfeydd gan Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Birmingham (BMT). Holwyd pobl y ddinas: "Beth sydd ar Birmingham ei angen a'i eisiau gan ei hamgueddfeydd, nawr ac yn y dyfodol; a beth ddylai'r BMT ei wneud i sicrhau bod hynny'n ddigwydd?"

Daeth grŵp amrywiol ynghyd, a'r aelodau'n cynrychioli demograffeg Birmingham mewn sawl ffordd. Hwyluswyd y ffordd iddynt gydweithio, gan roi grym gwirioneddol iddynt lywio dyfodol yr ymddiriedolaeth. Roedd y cynllun yn cynnig gofod wedi'i drefnu'n feddylgar i roi cyfle i aelodau'r rheithgor gyfnewid barn, profiadau, syniadau a gwybodaeth.

Roedd hyn yn rhan o gynllun hirdymor gan BMT i ymgysylltu â'u cymunedau a rhoi llais iddynt yn rôl a gweithredoedd BMT. Roeddent yn awyddus i annog y cyhoedd i gyfrannu at y broses benderfynu, ac i sicrhau bod y gwasanaeth amgueddfeydd yn cael effaith gadarnhaol ar Birmingham.




*Rheithgor Dinasyddion Amgueddfeydd Birmingham*

Cyflwynodd y rheithgor 11 rôl ac 20 argymhelliad i BMT, gan gyfrannu'n uniongyrchol at gynllun pum mlynedd yr ymddiriedolaeth a'r tu hwnt. Mae llawer wedi ymrwymo i gydweithio â'r amgueddfa am 18 mis ychwanegol, yn cynnwys cyfrannu at ddatblygu arddangosfa am y rheithgor. Arweiniodd y cyfle i gymryd rhan at dwf personol, mwy o ymgysylltu cyhoeddus a newid pendant yng nghanfyddiad y cyfranogwyr o amgueddfeydd. Lle gynt y câi BMT ei gyfrif yn storfa oddefol, roedd yn cael ei weld erbyn hyn yn gyfrannwr gweithredol at fywyd y ddinas.

# 02.

# Sicrhau mwy o amrywiaeth yn y gweithlu sy’n ymwneud â chasgliadau

Mae amrywiaeth yn y gweithlu’n hanfodol er mwyn datgloi holl rym y casgliadau. Mae sawl math o arbenigedd mewn casgliadau, oddi mewn ac oddi allan i’r sector. Dylai amgueddfeydd adolygu eu prosesau recriwtio er mwyn sicrhau gweithlu amrywiol a dylent ystyried pa rôl y gall aelodau’r gymuned ei chwarae mewn gwaith ar y casgliadau. Os gwneir hyn yn rhannol gan wirfoddolwyr, dylai amgueddfeydd sicrhau nad ydynt yn camfanteisio ar y gwirfoddolwyr a bod y rheiny’n cael budd gwirioneddol o’r gwaith, yn cynnwys tâl am rannu profiad bywyd.

Dylai arianwyr sicrhau bod proses recriwtio gynhwysol a thâl teg am swyddi y maen nhw’n eu hariannu a dylai sefydliadau cymorth yn y sector helpu i rannu arferion gorau ac eiriol dros weithlu mwy amrywiol.

Astudiaeth achos

## Recriwtio Curadur Naratifau Diwylliannol yn Amgueddfa Feddygaeth Thackray

Mae Amgueddfa Feddygaeth Thackray yn ardal Harehills yn Leeds, un o’r ardaloedd â’r boblogaeth fwyaf amrywiol yng Ngorllewin Swydd Efrog. Yn y gorffennol bu bwlch rhwng yr amgueddfa a’r gymuned leol a chydnabu’r amgueddfa mai’r rheswm tebygol oedd nad yw’r tîm yn edrych nac yn swnio fel trigolion yr ardal. Mae’r rhan fwyaf o’r staff yn wyn a theimlai’r amgueddfa na allent lawn werthfawrogi’r gwahaniaethu a wynebir gan y gymuned leol ac felly na allent ddweud eu stori’n union fel y mae.

Cawsant gyllid gan Gronfa Cymunedau a Chasgliadau Esmée Fairbairn i recriwtio Curadur Naratifau Diwylliannol. Gwelwyd hyn fel cyfle i ddangos eu bod o ddifrif ynglŷn â’u gwaith gwrth-hiliol a’u bod wedi ymrwymo i gynnwys rhagor o bobl yn eu stori.

Bu prosiectau fel Culture Club, sef cyfres o nosweithiau clwb yn yr amgueddfa mewn cydweithrediad â Sable Studio, sydd â pherchnogion du, a Words of Colour, a gefnogwyd ganddynt fel cynghreiriaid i’r prosiect, o gymorth i feithrin eu rhwydwaith gyda sefydliadau oedd eisoes yn gwneud y gwaith hwn. Cysylltwyd hefyd â Culture& a chanfod bod y rhwydwaith hwn yn allweddol i’w helpu i roi gwybod i’r bobl gywir am y swydd.

Gwelsant fod cymryd rhan mewn prosiectau fel Curating for Change yn help iddynt ddysgu mwy am recriwtio cynhwysol. Er enghraifft, maen nhw’n cynnig ymatebion fideo i ymgeiswyr. Yn achos rôl y Curadur Naratifau Diwylliannol, ailddiffiniwyd y profiad a’r wybodaeth roeddent yn gofyn amdanynt. Roeddent yn gwybod, er mwyn llwyddo i ddenu rhagor o bobl ddu neu bobl frown i’r sector, ei bod yn debygol y byddai’n rhaid iddynt edrych y tu allan i’r sector. Felly, penderfynwyd peidio â gofyn am brofiad o weithio mewn amgueddfa fel maen prawf hanfodol. Yn lle hynny, ystyriwyd sut y gallent gyffredinoli’r gofynion fel y byddai’n haws i ymgeiswyr gymhwyso’u sgiliau trosglwyddadwy eu hunain i’r rôl.

Mae’r curadur newydd, Jioni Warner, yn setlo’n dda. Mae wedi datblygu ei harddangosfa gyntaf ar y ffordd y dylanwadodd agweddau trefedigaethol at fenywdod ar hysbysebion meddygol ac mae wedi llunio taith sain hanes amgen gyda’r elusen leol, Getaway Girls. Bu gwybodaeth Jioni yn eithriadol o werthfawr i’r amgueddfa; mae hi wedi cefnogi eu panel caffael a gwaredu cymunedol ac wedi helpu’r tîm marchnata i ddeall sut i ddenu cynulleidfaoedd mwy amrywiol.




*Thackray Museum of Medicine*

*Mae ei gwaith wedi’n helpu ni i weld pethau na fydden ni’n sylwi arnyn nhw fel arall a thrwy wneud hynny, mae wedi’n helpu i wneud yr amgueddfa’n lle mwy croesawgar i bobl ddu a phobl frown.*

**Jamie Taylor**, *Cyfarwyddwr Casgliadau*

03.

## Agwedd ragweithiol at ddad-drefedigaethu

Mae amgueddfeydd yn fwyfwy hyderus wrth fynd ati i ddad-drefedigaethu a bu cynnydd amlwg yn y maes. Fodd bynnag, mae angen cynnal y momentwm, gan gydnabod ei fod yn waith hirdymor y mae angen ei ymgorffori a pharhau ag ef, yn enwedig mewn sefydliadau y mae eu gwreiddiau ynghlwm wrth imperialaeth Brydeinig. Trefnwyd rhywfaint o ganllawiau a chefnogaeth ar gyfer y gwaith hwn, ond datgelodd ein hymchwil ni fod tipyn o bryder o hyd am ymatebion negyddol sy'n atal rhai cyrff llywodraethu rhag cefnogi staff sy'n awyddus i wneud y gwaith.

Dylai'r sector barhau i ddatblygu'r gwaith, rhannu astudiaethau achos ac adolygu arferion gorau er mwyn sicrhau bod gwaith dad-drefedigaethu'n cael ei wneud mewn ffordd feddylgar a bod amgueddfeydd sydd â llai o brofiad yn y maes yn cael eu cefnogi. Gall cyrff ac arianwyr y sector chwarae rhan gan eiriol dros ddad-drefedigaethu ar lefel uwch a dylent chwilio am ddulliau cydweithredol o gefnogi gwaith sy'n cael ei ymgorffori, gyda chefnogaeth briodol i'r rhai sy'n ei wneud. Yn ogystal, dylai arianwyr sicrhau bod unrhyw waith tymor byr y maent yn ei ariannu yn y maes hwn yn cael ei ymgorffori yn y sefydliad ehangach.

*Mae amgueddfeydd yn gwneud mwy a mwy i gydnabod hanes trefedigaethol ac yn gweithredu polisïau 'dychwelyd i darddiad' ...gan ddangos ymgysylltiad ystyrlon â chymunedau yr effeithir arnynt.*

Amgueddfa Catrawd Frenhinol y Brenin Ei Hun

Astudiaeth achos

### *Prosiect Abysinia Catrawd Frenhinol y Brenin ei Hun*

Yn 2022, cafodd Amgueddfa Catrawd Frenhinol y Brenin Ei Hun (KORRM) grant o Gronfa Gasgliadau Esmée Fairbairn i ymchwilio i wrthrychau yn eu casgliadau a gymerwyd yn ystod y cyrch yn y 19eg ganrif i Abyssinia, Ethiopia bellach, i achub gwystlon o Brydain ac Ewrop a ddaliwyd gan yr Ymerawdwr Tewodros. Y gred oedd bod i lawer o'r gwrthrychau hyn arwyddocâd diwylliannol dwfn i'r genedl fodern.

Aeth KORRM ati i gyflogi Eyob Derillo, arbenigwr yn hanes Abysinia, a chyn-guradur casgliad Ethiopia yn y Llyfrgell Brydeinig, i werthuso'r arteffactau hyn a chanfod pa rai a gipiwyd ar ôl y frwydr yn y gaer ym Maqdala. Roedd y prosiect ymchwil yn cynnwys cydweithio ag aelodau o'r gymuned Ethiopaidd a chynrychiolwyr o Eglwys Uniongred Ethiopia, i roi cyd-destun a phersbectif diwylliannol i'r eitemau sensitif hyn. Cafodd y prosiect ei gefnogi gan gatrawd Dug Lancaster a bu iddo ariannu cynllun ailarddangos adran Abysinia yn Amgueddfa Catrawd Frenhinol y Brenin Ei Hun.



*Kings Own Royal Regiment Museum*

*Drwy feithrin cydweithrediad, cynhwysiant, a thrylwyredd academaidd, nod yr amgueddfa yw cyfrannu at ddealltwriaeth ddiwylliannol a chyfoethogi hanesyddol, gan arwain yn y pen draw at naratif mwy cynnil a chywir ynghylch Cyrch Abyssinia.*

Eyob Derillo

Yn ogystal, daeth y gwaith o hyd i eitemau a ddynodwyd yn weddillion dynol, a oedd yn groes i bolisïau casglu KORRM. Cudyn o wallt a darn o frethyn wedi'i staenio â gwaed oedd y rhain a chredir bod y ddau yn gysylltiedig â'r Ymerawdwr Tewodros. Yn dilyn cais ffurfiol gan Awdurdod Treftadaeth Ethiopia, cafodd yr eitemau hyn eu dychwelyd yn ffurfiol mewn Seremoni Dychwelyd i Darddiad yn 2026.

# *Perthnasol*

Er mwyn denu cynulleidfaoedd newydd ac eang a sicrhau budd i'r cyhoedd, mae angen i gasgliadau amgueddfeydd fod yn berthnasol i bobl.

Mae llawer o amgueddfeydd yn gweithio i gysylltu casgliadau â chymunedau ac mae yna uchelgais i wneud casgliadau'n fwy cynrychioliadol. Fodd bynnag, mae mwy o waith i'w wneud i sicrhau bod casgliadau'n berthnasol i gynulleidfaoedd sydd wedi'u heithrio o amgueddfeydd mewn ffordd systemig.

Dylai amgueddfeydd weithio mewn ffordd deg mewn partneriaeth â chymunedau i ddatblygu eu casgliad ac i ddysgu straeon newydd am wrthrychau eu casgliad. Drwy wneud hyn, gall casgliadau ddod yn ystyrlon i bobl a chymunedau, sbarduno'r dychymyg ac ysgogi sgyrsiau difyr am faterion cyfoes sy'n berthnasol i'w bywydau.

# *Argymhellwn:*

## 04.

## *Mwy o dryloywder mewn gwaith gyda chasgliadau*

Mae llawer o amgueddfeydd yn ceisio deall agweddau pobl at gasgliadau drwy werthuso, adolygiadau ar-lein a chael sgyrsiau â nhw. Fodd bynnag, gan amlaf, dim ond y casgliadau sy'n cael eu harddangos y mae cynulleidfaoedd yn eu gweld, ac felly nid ydynt yn ymwybodol o lawn led y casgliad.

Pan fydd pobl yn deall sut a pham y gwneir penderfyniadau curadurol, gall hynny eu grymuso i herio'r syniad o niwtraliaeth mewn amgueddfeydd ac i gwestiynu pam mae rhai straeon yn cael eu hadrodd ac eraill yn cael eu hepgor. Trwy feithrin dealltwriaeth y cyhoedd o waith ar gasgliadau, gellir rhoi hwb i amgueddfeydd i gasglu mewn ffordd strategol mewn partneriaeth â'u cynulleidfaoedd a'u cymunedau.

Gall amgueddfeydd ac ymarferwyr hybu mwy o dryloywder yn y gwaith a wneir ar gasgliadau mewn sawl ffordd, e.e. drwy roi eu polisi caffael ar lein, sôn am brosiectau rhesymoli, agor storfeydd i'r cyhoedd eu gweld a chynnwys cynulleidfaoedd a chymunedau wrth wneud penderfyniadau am waith cefn tŷ. Dylai sefydliadau cymorth i'r sector gymryd rôl arweiniol wrth annog amgueddfeydd i wneud gwaith rheoli casgliadau'n fwy tryloyw.

Dylai arianwyr gefnogi amgueddfeydd i wneud gwaith cefn tŷ yn fwy tryloyw ac i gynnwys cymunedau wrth wneud penderfyniadau am swyddogaethau gwaith cefn tŷ.

Astudiaeth achos

## V&A East Storehouse

Mae'r V&A East Storehouse yn cynnig cyfle i ymwelwyr weld casgliadau a fu mewn storfa ond sydd bellach yn cael eu harddangos mewn man pwrpasol oedd yn rhan o ganolfan gyfryngau Gemau Olympaidd Llundain 2012.

Mae dros 250,000 o wrthrychau, 350,000 o lyfrau llyfrgell a 1,000 o archifau yn y V&A East Storehouse a gynlluniwyd gan gwmni pensaernïol Diller Scofidio + Renfro. Mae'n cynnwys gwasanaeth Archebu Gwrthrych fel y gall unrhyw un drefnu apwyntiadau preifat i gael golwg agos ar wrthrychau at ddibenion ymchwil neu bleser.

Gyda'r V&A East Storehouse, mae'r V&A wedi cymryd cam i ffwrdd o storfeydd gweladwy, wedi'u rheoli'n ofalus, i storfeydd y caniateir mynediad iddynt gan greu profiad hunan-dywys gwirioneddol, a rhoi cip ar sefyllfa gefn tŷ yr amgueddfa. Mae mynediad am ddim unrhyw ddiwrnod o'r flwyddyn heb angen trefnu ymlaen llaw.



*V&A East Storehouse*

Cafodd ei ysbrydoli gan storfeydd agored eraill ledled y DU fel y Museum of Making yn Derby a Chanolfan Adnoddau Amgueddfeydd Glasgow. Caiff popeth ei arddangos fel y caiff ei storio gan olygu bod yr ymwelydd yn ymgysylltu ar unwaith â'r gwrthrych.

Bu'r V&A yn cydweithio â'r V&A East Youth Collective, y gymuned leol a phobl greadigol i lunio'r V&A East Storehouse. Y nod yw sicrhau bod pobl o'r ardal leol, ledled y DU ac yn rhyngwladol yn ei ddefnyddio.

05.

# Ffordd ystyriol o ddefnyddio technoleg ddigidol gyda chasgliadau amgueddfeydd

Gall digido'u casgliadau helpu amgueddfeydd i gysylltu â chynulleidfaoedd newydd. Fodd bynnag, mae angen gwneud hyn mewn ffordd strategol a phwrpasol sy'n anadlu bywyd i'r casgliadau. Nid yw rhannu lluniau gwael heb gyd-destun ystyrlon yn gwneud llawer i sicrhau bod casgliadau amgueddfeydd yn fwy hygyrch.

Mae'n bwysig cydnabod bod angen cyllid i wneud y gwaith hwn ac y bydd yn haws i sefydliadau sydd â mwy adnoddau nag i eraill. Felly, dylai arianwyr ystyried strategaethau cyllido cydlynol ar gyfer gwaith digido a dogfennu ar raddfa fawr.

Dylai cyrff yn y sector ystyried creu polisi safonol ar gyfer gwaith digido a llunio canllawiau ar y ffordd y gall amgueddfeydd ddefnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) mewn ffyrdd moesegol a chyfrifol wrth weithio ar gasgliadau.

Mae cost amgylcheddol ynghlwm wrth ddefnyddio technolegau digidol, felly dylai amgueddfeydd ymdrin â chasgliadau ar-lein mewn ffyrdd ystyriol sy'n cefnogi ymdrechion i leihau effeithiau ar yr hinsawdd.

---

*Yn ddiweddar, cawsom ymateb cadarnhaol iawn gan ein cynulleidfa i'n casgliadau ar-lein. Gan ein bod mewn lle mor wledig, rydym yn ddibynnol iawn ar blatfformau digidol ar gyfer ymgysylltu, ymgynghori, cyfarfodydd ac ymateb.*

---

**Annie MacDonald**, *Amgueddfa Nairn*

Astudiaeth achos

## Conflict and Legacy Interpretive Network

Diolch i grant gan Gronfa Gasgliadau Esmée Fairbairn, llwyddodd y Bloody Sunday Trust/Museum of Free Derry i gydweithio ag Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon a Healing Through Remembering i greu'r Conflict and Legacy Interpretive Network (CLIN).

Mae CLIN yn rhwydwaith o sefydliadau treftadaeth ledled yr ynys sy'n mynd i'r afael â materion gwrthdaro a gwaddol, gyda'r diben o feithrin syniadau a safbwyntiau amrywiol ar y gwrthdaro a gafwyd yn ddiweddar. Y nod yw sicrhau gwell dealltwriaeth a chyfrannu at y drafodaeth am waddol a chymod. Y bwriad wrth ei sefydlu oedd defnyddio cydweithrediad a chydgofio moesegol i adrodd hanes y cyfnod diweddar mewn ffordd fwy cynrychioliadol.

Fel rhan o'r prosiect, lansiwyd arddangosfa ddigidol ledled y rhwydwaith, gyda lluniau o arteffactau a recordiadau clyweledol o aelodau'r rhwydwaith yn cyflwyno arteffactau o'u casgliadau i gyfleu eu naratif personol o hanes a gwaddol 'y Trafferthion'.



*Conflict and Legacy Intepretive Network*

Bu'n bwysig sicrhau bod gwaddol hanesyddol y gwrthdaro yn cael ei guradu mewn ffordd gyfrifol a hygyrch, nid yn unig i gofnodi hanes ond hefyd i chwarae rhan weithredol wrth benderfynu sut y dylid casglu, dehongli a rhannu'r hanes hwn, a chyfrannu mewn ffordd gadarnhaol at y drafodaeth ynghylch gwaddol a chymod.

Bydd gwaith CLIN yn parhau am o leiaf y tair blynedd nesaf diolch i gyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i dalu am swyddog datblygu pwrpasol o Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon ynghyd â chostau datblygu a chostau'r prosiect.

06.

# Defnyddio casgliadau i greu effaith gymdeithasol, i ymgorffori gwybodaeth ac i adeiladu gwaddol

Mae llawer o amgueddfeydd yn gwneud gwaith gwerth chweil gan ddefnyddio casgliadau i greu effaith gymdeithasol yn cynnwys gwella iechyd a llesiant, creu lleoedd ac ysbrydoli ymgysylltu, myfyrio a thrafod. Drwy ein hymchwil, clywsom fod amgueddfeydd yn awyddus i wneud hyd yn oed fwy i gysylltu cymunedau â chasgliadau yn y degawd nesaf.

Yn aml, cyllid tymor byr a gaiff prosiectau yn y sector, felly dylai amgueddfeydd ystyried sut y gallant ymgorffori canlyniadau prosiectau tymor byr a'u defnyddio i gefnogi nodau hirdymor sy'n creu newid yn y sefydliad.

Mae cyfrifoldeb ar arianwyr i gyllido prosiectau sydd â gwaddol cadarn ac sydd wedi'u hymgorffori, fel na chollir gwybodaeth a chysylltiadau cymunedol pan ddaw'r cyllid i ben. Mae angen i gyrff yn y sector eiriol dros gynlluniau ariannu sydd â'r nod o sicrhau canlyniadau hirdymor a dylent hyrwyddo enghreifftiau o arferion gorau a ddefnyddir gan amgueddfeydd i greu effaith gymdeithasol.

*Mae wir yn bwysig bod casgliadau'n dod yn fan cyfarfod rhwng gwahanol randdeiliaid allanol. Rydym yn lleoedd da. Efallai nad yw'r adnoddau gennym bob amser, ond mae gennym ddigon o le fel y gall pobl ddod at ei gilydd o gwmpas y casgliadau a chael sgyrsiau cyfoes ystyrlon. Ac rwy'n credu bod hynny'n eithaf cyffrous.*

**Ollie Douglas**, *Museum of English Rural Life*

Astudiaeth achos

## Amgueddfa Whithorn a Building Futures Galloway

Cafodd Amgueddfa Whithorn arian o Gronfa Cymunedau a Chasgliadau Esmée Fairbairn i adeiladu gweithdy saer canoloesol realistig maint llawn. Dyma brosiect sgiliau dros ddwy flynedd i ymgysylltu â phobl ifanc 14-16 oed sydd wedi ymddieithrio o addysg ffurfiol. Mae'n bartneriaeth rhwng Whithorn, Dumfries and Galloway Youth Work, Ysgol Uwchradd Douglas Ewart, a Building Futures Galloway, elusen sy'n canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant yn y gwaith i bobl ifanc dan anfantais, mewn ardal sy'n bell o golegau a llwybrau gyrfa gwahanol.

Mae'r gwaith yn adeiladu ar brosiect blaenorol, Whithorn Rebuild, a fu'n gweithio gyda phobl ifanc agored i niwed a disgyblion oedd yn peidio â mynychu'r ysgol uwchradd leol, i'w galluogi i roi cynnig ar gyfleoedd ym maes sgiliau adeiladu hanesyddol, sy'n brin ledled Prydain. Sefydlwyd Whithorn Rebuild fel Building Futures Galloway, menter gymdeithasol ar wahân, sydd bellach yn cynnig sgiliau adeiladu mwy amrywiol i'w phrentisiaid ifanc.



*Amgueddfa Whithorn a Building Futures Galloway*

Mae gweithdy'r saer coed yn ffordd i Whithorn gynnal eu gwaith a pharhau i fynd i'r afael â phroblem diweithdra ymhlith pobl ifanc yn lleol ac yn rhanbarthol, trwy gynnig hyfforddiant achrededig i bobl ifanc mewn gwaith saer a gwaith gof, wrth weithio ar brosiect cyhoeddus maint llawn. Mae llawer o'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan ar amserlenni rhan-amser yn yr ysgol neu'n peidio â mynychu, yn aml oherwydd bod bywyd yn anodd yn y cartref neu fod arnynt orbryder cymdeithasol.

O ran y bobl ifanc, mae'r prosiect yn cynnig cyfle pwysig iddynt. Mae disgyblion sydd ag angen cymorth ychwanegol yn mynychu'n rheolaidd a dywed yr ysgol eu bod yn ymgysylltu'n well â rhannau eraill o'r cwricwlwm. Yn achos pobl ifanc 18-25 oed a gyflogir trwy Building Futures, mae'r rhaglen wedi'u galluogi i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a hyder wrth iddynt diwtora disgyblion sydd ddim ond ychydig flynyddoedd yn iau na nhw eu hunain.

# *Deinamig*

Nid yw casgliadau amgueddfeydd yn ddigyfnewid – wrth i ni gaffael eitemau newydd, casglu gwybodaeth newydd a gwneud gwaith rhesymoli, bydd natur casgliad yn newid. Dylai hyn adlewyrchu newidiadau yn y gymdeithas a'r byd o'n cwmpas, fel y gall casgliadau fod mor berthnasol a grymusol ag y bo modd.

Mae angen i ni ddeall beth sydd gennym a pham ond, er hynny, mae llawer o amgueddfeydd yn methu rhoi cyfrif llawn am yr eitemau sydd ganddynt a'u tarddiad. Gall y wybodaeth am gasgliadau fod yn annigonol ac, yn aml, mae storfeydd yn llawn ac yn cynnwys eitemau nad ydynt yn cyfateb i bolisïau casglu cyfredol neu sydd wedi'u dyblygu mewn casgliadau mewn mannau eraill. Mae brys cynyddol i fynd i'r afael â hyn fel y gall amgueddfeydd gyfiawnhau cost ariannol a chost amgylcheddol storio casgliadau.

Mae'n bwysig bod amgueddfeydd yn gallu gwneud y gorau o'u casgliadau. Gall partneriaethau a chynlluniau cydweithio ychwanegu gwybodaeth a safbwyntiau gwerthfawr at gasgliadau a sicrhau bod ein hamgueddfeydd yn dal i fod yn sefydliadau dibynadwy a gwerthfawr yn y gymdeithas.

*Argymhellwn:*

## 07.

## Cefnogi partneriaethau a rhannu gwybodaeth

Mae'n bwysig bod amgueddfeydd yn gallu casglu, cofnodi a chyflwyno gwybodaeth a naratifau am eu casgliadau er mwyn deall pa mor berthnasol ydynt. Collodd amgueddfeydd lawer o staff casgliadau ac arbenigedd mewn gwahanol bynciau o ganlyniad i doriadau yn eu cyllid dros y pymtheng mlynedd diwethaf. I liniaru effeithiau hyn, mae angen i amgueddfeydd gydweithio mwy a rhannu gwybodaeth yn lleol ac ymhellach i ffwrdd.

Mae Rhwydweithiau Arbenigwyr Pwnc (SSNs) yn dal yn rhan bwysig o'r broses hon a dylai arianwyr a sefydliadau sy'n cefnogi'r sector fuddsoddi ynddynt a'u hyrwyddo. Yn aml, caiff y sefydliadau hyn eu rhedeg yn wirfoddol gan bobl sydd â swyddi llawn amser ac ychydig neu ddim adnoddau ariannol. Dylai cyrff yn y sector gefnogi SSNs i gyrraedd y sector trwy rannu gwybodaeth a manylion am y rhwydweithiau, gan eu gwneud yn fwy gweladwy.

Dylai arianwyr fuddsoddi yn y sefydliadau hyn fel y gall amgueddfeydd elwa o'u gwybodaeth dorfol a'u rhwydweithiau.

Dylai grwpiau nad ydynt yn amgueddfeydd, e.e. prifysgolion, gwirfoddolwyr, cymdeithasau, casglwyr preifat a grwpiau cymunedol gael eu cydnabod hefyd yn ffynonellau arbenigedd. Yn aml, mae gan gymunedau wybodaeth werthfawr am gasgliadau a dylai amgueddfeydd harneisio hyn, gan gasglu gwahanol safbwyntiau. Gall sefydliadau fel prifysgolion wneud defnydd da o'r wybodaeth a'r data am gasgliadau sydd gan amgueddfeydd. Dylai amgueddfeydd gynnwys eu casgliadau yng Ngwasanaeth Data'r Amgueddfeydd a chwilio am gyfleoedd fel y System Ddosbarthedig o Gasgliadau Gwyddonol y DU (DiSSCo) i fanteisio i'r eithaf ar botensial y data sydd ganddynt.

Astudiaeth achos

### Marvels & Mayhem, Showtown, Blackpool

Cafodd Showtown, Blackpool arian gan Gronfa Cymunedau a Chasgliadau Esmée Fairbairn i wella dealltwriaeth a gwybodaeth am Archif Syrcas Tŵr Blackpool. Roeddent am ddatgelu'r straeon y tu ôl i'r casgliad hwn fel ffordd o gyfrannu at ddatblygiad amgueddfa newydd ar gyfer Blackpool.

Roedd yn hanfodol cysylltu â chymuned y syrcas fel y gellid datgloi potensial y casgliad. Er mwyn dechrau meithrin ymddiriedaeth gyda'r gymuned hon, gwahoddodd yr amgueddfa berfformwyr lleol oedd wedi ymddeol i ffurfio rhwydwaith ar gyfer cymuned y syrcas. Yna, roedd modd iddynt gynnal digwyddiadau a gweithdai lle gallai cymuned y syrcas recordio storïau a chyflwyno sgyrsiau yn rhannu eu gwybodaeth. Bu gwirfoddolwyr casgliadau yng Nghanolfan Hanes Showtown yn gwneud gwaith dogfennu sylfaenol i wneud y casgliad yn hygyrch i rwydwaith cymuned y syrcas ac wedyn roedd y rheiny'n gallu cefnogi gwaith ymchwil, dynodi benthyciadau, casglu, a chreu straeon a blogiau digidol.



*Showtown Blackpool Marvels and Mahem*

Yn ystod y gwaith catalogio, daeth y tîm ar draws deunydd yn ymwneud â phobl fychan yn perfformio yn Syrcas Tŵr Blackpool ac felly aethant ati i bartneru â'r elusen Little People UK i gydgynhyrchu straeon newydd ac arddangosfa, "Through Our Eyes: Little People Beyond the Circus".

Erbyn hyn, mae'r casgliad pwysig wedi'i ddogfennu, ei ailgartrefu, yn hygyrch, ac mae'n denu ymchwilwyr syrcas rhyngwladol. Trwy adeiladu ar yr ymchwil a'r ddealltwriaeth o'i gasgliadau a fu'n bosibl oherwydd Marvels & Mayhem, sicrhaodd Showtown gasgliad syrcas arall o bwys rhyngwladol yn ddiweddar. Bydd yr amgueddfa'n dal i gydweithio â'r ddwy gymuned i sicrhau bod casgliadau'n berthnasol ac yn hygyrch i'r bobl y maent yn eu hadlewyrchu.

08.

# Gwella'r cyllido a'r gefnogaeth gan gymheiriaid er mwyn rhesymoli casgliadau amgueddfeydd

Caiff amgueddfeydd eu hannog i lunio polisi cynhwysfawr ar ddatblygu casgliadau, sy'n cyfeirio at waredu casgliadau yn ogystal â'u caffael. Mae rhesymoli'n hanfodol er mwyn sicrhau bod casgliadau'n gynaliadwy o safbwynt ariannol ac amgylcheddol. Canfu ein hymchwil fod diffyg capasiti ac adnoddau yn aml yn rhwystro amgueddfeydd rhag adolygu a rhesymoli eu casgliadau'n rheolaidd. Dangosodd yr ymchwil hefyd bod storfeydd llawer o amgueddfeydd yn llawn a bod hyn yn cyfyngu ar fynediad at gasgliadau ac yn peryglu gwaith da i ofalu am gasgliadau a'u rheoli.

Dylai amgueddfeydd gynnwys rhesymoli fel rhan o waith arferol rheoli casgliadau a'i wneud mewn ffordd dryloyw, gan dynnu sylw at fudd y gwaith i'r cyhoedd. Dylai cyrff y sector ddadlau bod angen rhesymoli ar frys, yng ngoleuni'r argyfwng hinsawdd a dylent barhau i hwyluso cefnogaeth gan gymheiriaid a rhannu arferion gorau er mwyn normaleiddio'r gwaith hwn.

Dylid ymchwilio i gost a budd rhesymoli er mwyn helpu amgueddfeydd i gyflwyno achos dros y gwaith. Dylai arianwyr gefnogi prosiectau rhesymoli arloesol sy'n cynnwys cyfraniad gan y cyhoedd neu gyflwyno achos cryf dros wytnwch y sefydliad a'r budd a gaiff y cyhoedd ohono.

*O ran rhesymoli, mae meddylfryd a dealltwriaeth y sector wedi symud ymlaen, fel y mae hyfforddiant i ryw raddau, ond mae'n dal yn rhy anodd argyhoeddi arianwyr o'r angen i gefnogi'r gwaith hanfodol hwn.*

Ymateb dienw i'r alwad am dystiolaeth



*Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Birmingham*

# 09.

# Ystyried rhannu storfeydd

Mae llawer o gasgliadau'n dal i gael eu cadw mewn storfeydd anaddas. Dangosodd ein hymchwil mai gweithredu'n ymatebol yn hytrach nag yn strategol a wneir gan amlaf wrth fynd i'r afael â'r mater hwn, er enghraifft gan fod awdurdod lleol yn gwerthu'r adeilad neu oherwydd bygythiad bod difrod parhaol ar fin digwydd i'r casgliad. Fodd bynnag, gall hyn fod yn gyfle i resymoli ac i wella'r ddogfennaeth.

Gallai trefniadau storio effeithlon lle mae sawl amgueddfa'n rhannu'r un cyfleusterau storio modern, neu lle mae mathau penodol o gasgliadau'n cael eu storio'n ganolog wella gwytnwch a dod â manteision amgylcheddol. Gallai hynny sicrhau hefyd bod casgliadau'n cael eu dogfennu'n dda a'u digido. Gall cyrff o'r sector ddefnyddio'u gwybodaeth i gyflwyno tystiolaeth o'r angen am y gwaith hwn, a dylai arianwyr geisio'i gefnogi.

Astudiaeth achos

## Cyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor yn datblygu storfeydd ar y cyd ar gyfer casgliadau yng ngogledd-orllewin Cymru


Mae Cyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor yn gweithio mewn partneriaeth ffurfiol i ddarparu Storiel, yr Amgueddfa a'r Oriel Gelf yng Ngwynedd. Daethant yn fwyfwy ymwybodol o'r angen i wella trefniadau storio a chadwraeth ar gyfer casgliadau'r amgueddfa a chreu cyfleusterau gwell.

Ers 2022 bu'r partneriaid yn archwilio opsiynau posibl i ddatblygu Cyfleuster Casgliadau a Chadwraeth ar y Cyd gyda chyllid gan Amgueddfa Cymru. Mae'r Bartneriaeth, dan arweiniad Cyngor Gwynedd, yn cynnwys Prifysgol Bangor, Amgueddfa Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cadw – Llywodraeth Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Ynys Môn. Penderfynwyd mai adeiladau gwag oedd yn eiddo i Brifysgol Bangor oedd yr opsiwn gorau.

Oherwydd faint o le sydd ar gael yn yr adeilad a chostau cyffredinol y prosiect, mae'r tîm yn gwneud y gwaith fesul tipyn. Cafwyd arian gan UKSPF i'w galluogi i ddatblygu'r achos busnes ar gyfer gwneud hyn.

I ddechrau, rhoddir blaenoriaeth i gasgliadau Cyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor gydag opsiwn yn y dyfodol i adeiladu estyniad newydd ar gyfer y bartneriaeth ehangach. Ar ôl sicrhau cyllid gan Gronfa Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant Llywodraeth Cymru, maent wedi symud ymlaen â'n dull graddol i RIBA 2 fel y gall y ddau bartner ddatblygu storfa gasgliadau, cyfleuster cadwraeth a storfa argyfwng ar y cyd.

Os gellir sicrhau rhagor o gyllid, maent yn gobeithio symud y cynlluniau ymlaen i RIBA 4 a gwireddu eu cynllun i ddatblygu cyfleuster cadwraeth a storfa gasgliadau agored, arloesol a chynaliadwy ar gyfer gogledd-orllewin Cymru. Byddai hyn yn sicrhau bod llawer o gasgliadau'n derbyn gofal o dan yr amodau gorau posibl ac yn cael eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



*Cyngor Gwynedd*

# Crynodeb o'r *argymhellion*

Green Power. Llun gan: Amgueddfeydd Mansfield



# *Grymusol*

Defnyddio casgliadau i archwilio materion yn ymwneud â lle a hunaniaeth, i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol, i ddwyn cymunedau ynghyd ac i feithrin trafod a myfyrio.

| Amgueddfeydd | Arianwyr | Cyrff yn y Sector |
|---|---|---|
| ***01. Dull a ddemocrateiddiwyd o ymdrin â chasgliadau ac arddangosfeydd*** | | |
| Dylai amgueddfeydd sicrhau bod eu gwaith ar y casgliadau yn cael ei arwain gan y defnyddwyr a'i fod yn adlewyrchu nodau ac amcanion y sefydliad. | Dylai arianwyr gefnogi gwaith holistig a chynhwysol ar gasgliadau fel y gellir defnyddio'r casgliadau i'w llawn botensial er budd y cyhoedd. | Dylai cyrff yn y sector eiriol dros bwysigrwydd gwaith cefn tŷ ar y casgliadau er mwyn dod â mwy o fudd i'r cyhoedd yn y tymor hir. |
| ***02. Sicrhau mwy o amrywiaeth yn y gweithlu sy'n ymwneud â chasgliadau*** | | |
| Dylai amgueddfeydd sicrhau mwy o amrywiaeth ymhlith y llywodraethwyr a'r gweithlu er mwyn bod yn gynrychioliadol o'u cymunedau, a dylent adolygu sut y gellir addasu eu trefniadau recriwtio a gwirfoddoli i sicrhau bod gan weithlu'r casgliadau ddigon o arbenigedd perthnasol. | Dylai'r arianwyr sicrhau bod pobl sy'n cyfrannu eu profiad o fywyd yn cael cydnabyddiaeth deg a bod arferion recriwtio cynhwysol yn cael eu dilyn mewn unrhyw waith y maent yn ei ariannu. | Dylai cyrff yn y sector hyrwyddo trefniadau recriwtio cynhwysol ac eiriol dros sicrhau mwy o amrywiaeth yng ngweithlu'r casgliadau. |
| ***03. Agwedd ragweithiol at ddad-drefedigaethu*** | | |
| Dylai'r amgueddfeydd mwyaf profiadol mewn gwaith dad-drefedigaethu rannu sut y maent wedi mynd ati, gan helpu sefydliadau llai profiadol i gymryd y camau cyntaf tuag at ddad-drefedigaethu. | Dylai arianwyr gefnogi sefydliadau i wneud gwaith dad-drefedigaethu a sicrhau bod y gwaith y maent yn ei ariannu yn feddylgar ac wedi'i ymgorffori. | Dylai cyrff yn y sector eiriol dros ddad-drefedigaethu a helpu amgueddfeydd i gael cefnogaeth yr arweinyddiaeth. |

# *Perthnasol*

Cydweithio â phobl a chymunedau i ddeall yn well sut y gall casgliadau fod yn berthnasol iddyn nhw ac adlewyrchu'r gymdeithas.

| Amgueddfeydd | Arianwyr | Cyrff yn y Sector |
|---|---|---|
| *04. Mwy o dryloywder mewn gwaith gyda chasgliadau* | | |
| Dylai amgueddfeydd rannu'r hyn maent yn ei wneud gyda chasgliadau, fel polisïau caffael a phrosiectau rhesymoli, yn gyhoeddus a chynnwys cymunedau wrth wneud penderfyniadau am waith. | Dylai arianwyr gefnogi amgueddfeydd i ymchwilio i ddisgwyliadau'r cyhoedd o'r casgliadau. | Dylai cyrff yn y sector gymryd rôl arweiniol o ran annog amgueddfeydd i fod yn fwy tryloyw wrth reoli casgliadau. |
| *05. Ffordd ystyriol o ddefnyddio technoleg ddigidol gyda chasgliadau amgueddfeydd* | | |
| Dylai amgueddfeydd fynd ati mewn ffordd bwrpasol i ddefnyddio technoleg ddigidol at ddibenion y casgliadau, gan sicrhau bod hynny'n gwella profiad y gynulleidfa, yn gwneud y casgliadau'n fwy hygyrch ac yn eu helpu i ddod yn fyw. | Dylai arianwyr gydlynu a chysylltu cefnogaeth ar gyfer prosiectau digido mawr mewn amgueddfeydd. | Dylai cyrff yn y sector greu polisi safonol ar gyfer gwaith digido a llunio canllawiau ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) mewn ffordd foesegol wrth weithio ar gasgliadau. |
| *06. Defnyddio casgliadau i greu effaith gymdeithasol, i ymgorffori gwybodaeth ac i adeiladu gwaddol* | | |
| Dylai amgueddfeydd ymgorffori canlyniadau prosiectau tymor byr a'u defnyddio i gefnogi nodau hirdymor sy'n creu newid yn y sefydliad. | Dylai arianwyr sicrhau eu bod yn cefnogi gwaith sydd â gwaddol cadarn fel na chollir gwybodaeth na chysylltiadau cymunedol pan ddaw'r cyllid i ben. | Dylai cyrff yn y sector eiriol dros gyllid sy'n creu canlyniadau hirdymor a dylent gyflwyno enghreifftiau i'r llywodraeth ac arianwyr o'r arferion gorau a ddefnyddir gan amgueddfeydd er mwyn cael effaith gymdeithasol. |

# *Deinamig*

Mynd ati i reoli casgliadau, yn cynnwys rhesymoli, gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth er mwyn hybu casgliadau ac amgueddfeydd cynaliadwy.

| Amgueddfeydd | Arianwyr | Cyrff yn y Sector |
|---|---|---|
| ***07. Cefnogi partneriaethau a rhannu gwybodaeth*** | | |
| Dylai amgueddfeydd rannu gwybodaeth am gasgliadau yn eang a dylent gydweithio ag amgueddfeydd a grwpiau nad ydynt yn amgueddfeydd i ychwanegu at y wybodaeth hon. | Dylai arianwyr fynd ati mewn ffordd strategol i gefnogi Rhwydweithiau Arbenigwyr Pwnc (SSNs) a gwaith sy'n golygu y gellir rhannu gwybodaeth rhwng amgueddfeydd a grwpiau eraill. | Dylai cyrff yn y sector gynnull SSNs, gan roi lle iddynt ddarparu'r wybodaeth gyswllt a'r dolenni diweddaraf. |
| ***08. Gwella'r cyllido a'r gefnogaeth gan gymheiriaid er mwyn rhesymoli casgliadau amgueddfeydd*** | | |
| Dylai amgueddfeydd gynnwys rhesymoli fel rhan o waith arferol rheoli casgliadau a'i wneud mewn ffordd dryloyw. | Dylai arianwyr gefnogi prosiectau rhesymoli a gwaith ymchwil sy'n cynnwys cyfraniad gan y cyhoedd neu gyflwyno achos cryf dros wytnwch y sefydliad. | Dylai cyrff yn y sector eiriol dros resymoli a dylent hwyluso cefnogaeth gan gymheiriaid a rhannu gwybodaeth am resymoli. |
| ***09. Ystyried rhannu storfeydd*** | | |
| Dylai amgueddfeydd feddwl yn strategol am eu storfeydd a defnyddio cyfleoedd fel gwasanaethau cyfunol gan awdurdodau lleol i ystyried rhannu storfeydd. | Dylai arianwyr alluogi amgueddfeydd i rannu storfeydd. | Dylai cyrff yn y sector helpu i ddangos tystiolaeth o'r angen i rannu storfeydd a manteision hynny, a chymeradwyo amgueddfeydd sy'n ei wneud. |

Museums
Association

*Llun ar y clawr: Postal Museum*